Y Grŵp Trawsbleidiol ar Glefyd Seliag

Cofnodion y Cyfarfod

12/5/15

**Yn bresennol**: Aled Roberts AC (Cadeirydd); Jackie Radford (Ysgrifennydd); Jean Dowding; Tristan Humphreys; Norma McGough; Dr. Geraint Preest; Dr. Jill Swift; Ajay Kenth; Henry Wilkins; Bronwen Wilkins; Lindsey Morgan; Rhun ap Iorwerth AC; Graham Phillips; Mike Hedges AC; Jeff Cuthbert AC; Bill Hyde; Kathy Hyde

**Ymddiheuriadau**: David Rees AC; Angela Burns AC; Carol Carpenter; Heather Stephen.

- Cytunwyd yn unfrydol fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24/2/15 yn gywir.

**Materion yn codi**

- Mae JC wedi cysylltu â'r Grŵp Cydweithredol a bydd y trafodaethau'n parhau ar ôl eu cyfarfod cyffredinol blynyddol.
- Cafwyd dau ymateb hyd yma i'r llythyr a anfonwyd at y byrddau iechyd lleol, un ymateb dros dro ac un ymateb llawn. Cytunwyd i anfon yr ymatebion at Coeliac UK ac at holl Aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol. Byddai'r rhai nad ydynt wedi ymateb yn cael llythyr dilynol a byddai llythyr yn cael ei anfon at y Prif Weithredwr hefyd. Roedd HW am gael gwybod os nad oedd BILl Hywel Dda yn ymateb. (**Camau i'w cymryd: JR)**
- Dywedodd JR nad yw'r Bil Rheoleiddio ar Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn cyfeirio at groeshalogi ac, yn ôl yr ateb a gafwyd i ymholiad a anfonwyd at Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad (copi isod) mae'r Bil yn cyfeirio at *reolwyr* gofal cymdeithasol a reoleiddir, nid staff. Roedd yn credu mai'r ffordd orau o ymdrin â'r broblem fyddai drwy'r Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru). Awgrymodd RhapI y gellid ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd i ofyn am eglurhad a gofyn i Coeliac UK gadarnhau canllawiau'n ymwneud â'r rheoliadau i benderfynu pa Fil fyddai'n mwyaf priodol. **(Camau i'w cymryd TH/AR)**
- Tynnodd MH sylw at e-bost a gafodd gan etholwr a oedd yn cyfeirio at anawsterau gyda'r eitemau a oedd ar gael ar bresgripsiwn. Nododd NM mai presgripsiwn am fwydydd sylfaenol roedd Meddygon Teulu yn gallu ei roi, nid am amrywiaeth eang o fwydydd. Rhaid iddynt ddilyn canllawiau penodol sy'n nodi beth y gellir ei gynnwys ar y presgripsiwn bob mis, sef bwydydd sylfaenol . Gan nad oedd MH yn y cyfarfod ar y pryd, cytunwyd y byddai JR yn siarad â TH i gytuno ar ymateb i'w anfon at yr etholwr. **(Camau i'w cymryd JR/TH/NM)**
- Mae'r pecynnau ysgol yn cael eu hadolygu cyn eu cyfieithu. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y cyfarfod nesaf.
- Bu cynnydd pendant gyda meddalwedd Informatica ac mae'n barod i'w gyflwyno. Mynegwyd pryder ynghylch yr effaith bosibl y byddai atgyfeiriadau'n ei chael ar ofal eilaidd gan fod problemau eisoes o ran nifer y cleifion a oedd yn cael archwiliad

endosgopi ac yn cael eu cyfeirio wedyn at wasanaethau dieteteg. Dywedodd GP y byddai'n falch o roi gwybodaeth i Feddygon Teulu am ddefnyddio Informatica. Awgrymwyd y gellid gwahodd y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (Dr Chris Jones) i gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol. Byddai JS yn holi ac yn anfon e-bost at JR. **(Cam i'w gymryd: JS).** Trafodwyd y posibilrwydd o drefnu i is-bwyllgor o'r Grŵp Trawsbleidiol gyfarfod â Dr. Jones os na fydd yn gallu dod i'r cyfarfod yng Ngogledd Cymru ym mis Hydref. Penderfynir ar hyn ar ôl cael ymateb i'r e-bost. Trafodwyd y ffordd orau o lansio Informatica, a phenderfynwyd hysbysu Meddygon Teulu yn gyntaf ac wedyn trefnu i'r Gweinidog ei lansio. Mae Coeliac UK a'r BMG wrthi'n paratoi datganiad i'r wasg a chaiff ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.

**Y wybodaeth ddiweddaraf**

- Rhoddodd TH drosolwg ar yr ymgyrch dwy flynedd Coeliac UK, 'Ai clefyd seliag sydd arna' i?' a lansiwyd yn gynharach y diwrnod hwnnw. Lansiwyd yr ymgyrch yn ystod Wythnos Codi Ymwybyddiaeth o Glefyd Seliag ac roedd yn cynnwys meddalwedd ac asesiad ar-lein. Byddai'r ymgyrch yn cael ei lansio yn y DU ddydd Gwener, 15 Mai ond lansiwyd yr ymgyrch yng Nghymru ar 12 Mai, yr un diwrnod â chyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol. Dylid anfon copi o'r datganiad i'r wasg enghreifftiol, sy'n cael ei baratoi ar gyfer yr Aelodau, at bawb a oedd yn y lansiad ac yng nghyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol. (**Cam i'w gymryd: JR).** Bydd cam nesaf yr ymgyrch yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau allanol - siarad â'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth a rhoi cynnig ar y pecyn asesu. Cynhelir digwyddiad yn Heol y Frenhines, Caerdydd rhwng 14 a 18 Gorffennaf. Cynigir profion pwynt gofal a bydd samplau o fwydydd heb glwten ar gael am ddim. NM a TH fydd yn arwain yr ymgyrch a gwahoddir Aelodau eraill y Grŵp Trawsbleidiol i ymuno â nhw yng Nghaerdydd ym mis Gorffennaf. Bydd yn ymdrechu'n benodol i godi ymwybyddiaeth grwpiau oedran iau. Nododd RhapI ei bod yn bwysig sicrhau bod brandio ar gyfer digwyddiadau yng Nghymru yn ddwyieithog. **(Camau i'w cymryd TH/NM)**
- Bydd Coeliac UK yn debygol o ddefnyddio'r profion pwynt gofal Symptomax (pigiad ar y bys) uchod er mwyn adnabod risg yn effeithiol a chyfeirio pobl at eu Meddyg Teulu os oedd problem. Mae'r rhain yn cael eu treialu ar hyn o bryd fel rhan o raglen Fferyllwyr Cymunedol a chânt eu defnyddio'n unol â chanllawiau NICE.
- Mae canllawiau Cymru, sef 'Mynediad i addysg a chymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion meddygol' yn cael eu diweddaru ddiwedd y flwyddyn a bydd ymgynghoriad ynghylch newidiadau posibl. Mae Coeliac UK yn awyddus i sicrhau y bydd yn cyfeirio at glefyd seliag a chaiff hyn ei ychwanegu at agenda'r cyfarfod ym mis Hydref.
- Daeth y cyfarfod i ben am 7.10pm

**Cyfarfod nesaf: Dydd Iau, 15 Hydref, Gogledd Cymru (yr union leoliad i'w gadarnhau)**

**Crynodeb o'r camau i'w cymryd:**

| Camau i'w cymryd | Pwy | Diweddariad |
|---|---|---|
| Anfon ymatebion BILl at bob aelod;<br><br>Anfon llythyrau dilynol lle y bo'n briodol;<br><br>a<br><br>rhoi gwybod i Henry os na cheir ymateb gan Hywel Dda | JR | Mae'r ymatebion a ddaeth i law hyd at 27/5 ynghlwm (6)<br><br>Angen anfon llythyr dilynol at Hywel Dda<br><br>Ni chafwyd ymateb gan Hywel Dda hyd yma |
| Coeliac UK i edrych ar Fil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol ac asesu a fyddai'n briodol cynnwys canllawiau ar groeshalogi ynddo;<br><br>Anfon llythyr at y Gweinidog Iechyd os oes unrhyw ansicrwydd | TH<br><br>AR. | Mae copi o ymateb y Gwasanaeth Ymchwil isod i TH ei ddarllen. |
| Ymateb i etholwr MH | JR/TH/NM | Mae gan MH fanylion cyswllt TH yn awr ac mae wedi drafftio ac anfon ymateb. |
| Gwahodd Dr Chris Jones, y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, i gyfarfod nesaf y Grŵp Trawsbleidiol | JS | Mae JS wedi dweud wrth JR y byddai'n fwy priodol gwahodd Dr John Green sy'n aelod o'r pwyllgor gwasanaethau endosgopi y mae'r Dr Chris Jones yn ei gadeirio. Mae'n gweithio fel gastroenterolegydd ac yn aelod o dîm asesu JAG.<br><br>Mae JR aros i JS gadarnhau y bydd Dr. Green yn dod i gyfarfod yng Nghaerdydd, yn |

| | | |
|---|---|---|
| | | hytrach na Gogledd Cymru. |
| Anfon templed o ddatganiad i'r wasg at yr Aelodau a oedd yn y lansiad a/neu gyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar 12/5. | JR | Anfonwyd y templed ar 13/5 |
| Brandio ar gyfer digwyddiadau'r ymgyrch ym mis Gorffennaf yng Nghaerdydd i fod yn ddwyieithog | TH/NM | |

**Ymateb y gwasanaeth ymchwil:**

*Mewn ymateb i'ch ymholiad yn gofyn a oes unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gwasanaethau Cymdeithasol i ymdrin â materion fel croeshalogi glwten, darparu bwyd heb glwten a hyfforddi staff gofal cartref i godi eu hymwybyddiaeth o groeshalogi:*

***Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)***

*Nid yw'r Bil yn cyfeirio o gwbl at y materion hyn. Mae'n bosibl y gellid sicrhau bod staff gofal cartref yn cael hyfforddiant o'r fath drwy wneud rheoliadau o dan ran 5 (adrannau 111-115) neu adran 26 o'r Bil.*

*Rhan 5*

*Mae darpariaethau cyffredinol yn rhan 5 o'r Bil yn ymwneud â hyfforddiant i staff gofal cymdeithasol cofrestredig – fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, byddai hyn yn cynnwys rheolwyr cartrefi gofal ond nid staff gofal cartref (nad yw'n ofynnol iddyn nhw gofrestru).*

***Mae crynodeb y Gwasanaeth Ymchwil o'r Bil yn nodi'r canlynol:***

*2.2.5 Safonau gweithwyr gofal cymdeithasol*

*Mae rhan 5 (adrannau 111 – 115) yn canolbwyntio ar safonau ymddygiad, datblygiad proffesiynol ac addysg i weithwyr gofal cymdeithasol.*

*Mae adran 111 yn nodi bod yn rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru baratoi, cyhoeddi ac adolygu codau ymarfer sy'n pennu'r safonau ymddygiad ac arfer a ddisgwylir gan weithwyr gofal cymdeithasol, a'r rhai sy'n cyflogi gweithwyr gofal cymdeithasol.*

*[…]*

*Mae adran 112 yn nodi y caiff Gofal Cymdeithasol Cymru wneud rheolau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sydd wedi eu cofrestru ('gweithwyr gofal cymdeithasol') gwblhau hyfforddiant ychwanegol a datblygiad proffesiynol parhaus. Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru gymeradwyo ac arolygu cyrsiau perthnasol (adrannau 113 - 114) a rhaid iddo gynnal a*

*chyhoeddi rhestr o'r cyrsiau y mae wedi eu cymeradwyo. Hefyd, caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ddarparu cwrs newydd os oes angen, neu sicrhau y caiff ei ddarparu, a gofalu bod grantiau ar gael i sicrhau a darparu'r hyfforddiant (adran 115).*

*DS: Gofal Cymdeithasol Cymru yw'r corff newydd sy'n rheoleiddio'r gweithlu. Mae wedi disodli Cyngor Gofal Cymru.*

***Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi'r canlynol***

*Byddwn yn disgwyl i reoleiddiwr y gweithlu ddefnyddio ei bwerau newydd a'i swyddogaeth ym maes hyfforddi a datblygu'r gweithlu i ganolbwyntio ar reolwyr gofal a gofal a chymorth - gan feithrin gallu i ddatblygu yng Nghymru a deall galw a chyflenwad yn y dyfodol.*

*Felly, o dan ran 5 o'r Bil mae'n bosibl y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru wneud rheol sy'n ei gwneud yn ofynnol i reolwyr cartrefi gofal ymgymryd â hyfforddiant (a allai gynnwys hyfforddiant ar faterion croeshalogi); ond ni allai ei gwneud yn ofynnol i holl staff cartrefi gofal ymgymryd â hyfforddiant o'r fath (gan nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru â'r rheoleiddiwr) - ni allai hyn ddigwydd oni bai bod Llywodraeth Cymru yn gwneud rheoliadau ar ôl pasio'r Ddeddf i'w gwneud yn ofynnol i staff cartrefi gofal gofrestru.*

*26 Rheoliadau ynghylch gwasanaethau a reoleiddir*

*Mae'r adran hon yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru, drwy wneud rheoliadau, osod gofynion ar ddarparwr gwasanaeth. Gallai'r rhain gynnwys pennu safon y gofal a'r cymorth y mae'n rhaid ei ddarparu. Felly mae'n bosibl, er enghraifft, y caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n datgan bod yn rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod staff y cartref gofal wedi'u hyfforddi'n briodol.*

***Bil Iechyd y Cyhoedd***

*Mae'n bosibl y gallai'r Bil Iechyd y Cyhoedd ymdrin â materion o'r fath. Mae'r Papur Gwyn ar y Bil Iechyd y Cyhoedd yn cynnwys cynigion i gyflwyno safonau maeth mewn cartrefi gofal. Mae'n nodi y byddai hyn yn adeiladu ar y safonau maeth ar gyfer ysbytai (sy'n cyfeirio at fwydydd heb glwten), a byddai'n cael ei wneud drwy is-ddeddfwriaeth a/neu ganllawiau. Yn ôl Llywodraeth Cymru, caiff Bil Iechyd y Cyhoedd ei chyflwyno 'cyn toriad yr haf'.*

**Atodiadau i'r e-bost hwn:**

- Llythyr gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Llythyr gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Llythyr gan Fwrdd Iechyd Brifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- E-bost a dogfennau cysylltiedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan – dieteteg
- Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

- Ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf